**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: /FM/00007/24

R Medwyn Hughes
Gwynedd Council
eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

17 Ionawr 2024

Annwyl Gynghorydd Hughes

Diolch am eich llythyr yn amgáu gwybodaeth am gynnig a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r sefyllfa yn Gaza ac Israel.

Fel cynifer o bobl ledled y byd, cawsom lygedyn o obaith o'r cadoediad dros dro diweddar a'r estyniadau iddo, pan gafwyd cyfle i ryddhau gwystlon Israel a phan gludwyd cymorth yr oedd mawr ei angen i mewn i Gaza. Gyda siom a gofid dwys y gwelsom fod yr ymladd wedi dechrau eto, ac wedi dwysáu.

Rhaid cael ymdeimlad newydd o frys ymhlith y gymuned ryngwladol i sicrhau cadoediad llawn a pharhaol, er mwyn dod â'r lefelau annioddefol o drais a dioddefaint dynol i ben cyn gynted â phosibl. Rhaid i ddiwedd y trais fod yn llwyfan hanfodol ar gyfer proses wleidyddol hirdymor a phenderfynol y gallwn weithio tuag ati i sefydlu datrysiad dwy wladwriaeth yn seiliedig ar wladwriaeth Balesteinaidd sofran, ac Israel ddiogel.

Ni fydd neb yn Israel a Phalesteina yn ddiogel heb sicrhau heddwch tymor hir, sy'n deg i Israeliaid a Phalesteiniaid fel ei gilydd.

Rwyf wedi cwrdd ag arweinwyr Mwslimaidd o bob rhan o Dde Cymru, ac rwyf wedi mynychu seremoni gyhoeddus i oleuo menorah y tu allan i'r Senedd ar seithfed noson Hanukkah. Mae'n amlwg bod y digwyddiadau yn Gaza ac yn Israel yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau Mwslimaidd ac Iddewig yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi cyfrannu at nifer o apeliadau a gynhelir gan y Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) ar ran 15 o sefydliadau dyngarol byd-eang. Rydym hefyd yn darparu cyllid i alluogi'r DEC i weithio'n fwy effeithiol yng Nghymru. Mae'r DEC yn lansio apêl ar gyfer trychineb neu argyfwng dyngarol pan gyrhaeddir nifer o feini prawf. Un o'r meini prawf hynny yw y gall aelod-asiantaethau wario arian a godir yn effeithiol, ac maent yn credu mai dim ond cadoediad parhaol fyddai'n rhoi cyfle iddynt ddarparu'r cymorth y mae mawr ei angen arnynt yn effeithiol i'r Palesteiniaid sy'n byw yn Gaza.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau hynny yn ein dwylo ni, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag Islamoffobia a gwrthsemitiaeth, er mwyn sicrhau y gall pob cymuned fyw gyda'i gilydd yng Nghymru yn heddychlon a chyda pharch at ei gilydd.



**MARK DRAKEFORD**